OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1064

# Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2018

## RHAN 3

### Rheolaethau mewnol yr UE ar symud

**Gwaharddiadau ar gyflwyno plâu planhigion a deunydd perthnasol o'r Undeb Ewropeaidd**

**18.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson gyflwyno dim o'r plâu planhigion a'r deunydd perthnasol a ganlyn i Gymru o ran arall o'r Undeb Ewropeaidd—

(a) unrhyw bla planhigion o ddisgrifiad a bennir yn Atodlen 1;

(b) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 2 sy'n cario neu wedi ei heintio â phla planhigion o ddisgrifiad a bennir mewn unrhyw gofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Atodlen 2;

(c) unrhyw bla planhigion, er nad yw wedi ei bennu yn Atodlen 1 nac yng ngholofn 3 o Atodlen 2, nad yw'n bresennol ym Mhrydain Fawr fel arfer ac sy'n debygol o fod yn niweidiol i blanhigion ym Mhrydain Fawr;

(d) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Atodlen 3 sy'n tarddu o drydedd wlad a bennir yn y cofnod mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Atodlen 3;

(e) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran A o Atodlen 4, oni bai y cydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran A o Atodlen 4;

(f) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran B o Atodlen 4, oni bai y cydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran B o Atodlen 4;

(g) unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran C o Atodlen 4, oni bai y cydymffurfir â'r gofynion a bennir yn y cofnodion mewn cysylltiad â'r disgrifiad hwnnw o ddeunydd perthnasol yng ngholofn 3 o Ran C o Atodlen 4.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys i'r plâu planhigion a'r deunydd perthnasol penodedig pa un a ydynt yn tarddu o ran arall o'r Undeb Ewropeaidd neu o drydedd wlad.

(3) Ond nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol o ddisgrifiad a bennir yng ngholofn 2 o Ran A neu C o Atodlen 4 y mae Rhan 2 yn gymwys iddi.

(4) Nid yw paragraff (1)(e) ac (f) yn gymwys i unrhyw ddeunydd perthnasol a waherddir rhag cael ei gyflwyno i Gymru o dan baragraff (1)(d).

(5) Ni chaiff unrhyw berson ddod â dim o'r tatws a ganlyn i Gymru oni bai y darperir hysbysiad ysgrifenedig am y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) i arolygydd o leiaf ddau ddiwrnod cyn y dyddiad y bwriedir iddynt gyrraedd—

(a) tatws hadyd a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu mewn Aelod-wladwriaeth arall neu yn y Swistir; neu

(b) tatws, ac eithrio tatws hadyd, a dyfwyd neu yr amheuir eu bod wedi eu tyfu yng Ngwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania neu unrhyw ran o Sbaen sydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

(6) Y materion yw—

(a) yr amser a'r dyddiad y bwriedir iddynt gyrraedd;

(b) y defnydd arfaethedig ohonynt;

(c) eu cyrchfan arfaethedig;

(d) eu hamrywogaeth a'u nifer; ac

(e) rhif adnabod cynhyrchydd y tatws.

(7) Yn achos ffrwythau sitrws hysbysadwy, rhaid i'r person sy'n cyflwyno'r ffrwythau i'r Undeb Ewropeaidd drwy fan cyrraedd mewn rhan arall o'r Undeb Ewropeaidd ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru yn y cyfeiriad penodedig, cyn iddynt gyrraedd y man cyrraedd hwnnw, am—

(a) y dyddiad y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd;

(b) eu man cyrraedd yn yr Undeb Ewropeaidd;

(c) eu cyfaint;

(d) rhifau adnabod eu cynwysyddion;

(e) enwau, cyfeiriadau a lleoliadau'r mangreoedd yng Nghymru y maent i'w prosesu ynddynt.

(8) Mae paragraffau (1)(e), (f) ac (g) a (5) yn ddarostyngedig i erthygl 22.

(9) Yn yr erthygl hon—

ystyr "cyfeiriad penodedig" ("*specified address*") yw'r cyfeiriad a roddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd at ddibenion paragraff (7);

ystyr "ffrwythau sitrws hysbysadwy" ("*notifiable citrus fruits*") yw ffrwythau sitrws i'w prosesu sydd i'w cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd drwy fan cyrraedd mewn Aelod-wladwriaeth arall a'u prosesu'n sudd yng Nghymru.